

<b>Swydd</b>	<p><b>Uwch Reolwr Prosiect, Cymru: Gofal Cymdeithasol Oedolion a Gofal Iechyd</b></p> <p>Drwy weithio ochr yn ochr gyda'r Cyfarwyddwr, bydd y deilydd swydd yn rheoli cyflenwi rhaglenni cerddoriaeth mewn lleoliadau iechyd, gofal a chymuned, yn brydlon ac o fewn cyllideb. Bydd y deilydd swydd hefyd yn canfod ac yn datblygu ffynonellau ariannu prosiectau ac yn cefnogi marchnata a chyfathrebu.</p>
<b>Cyflog</b>	£30,000 FTE y flwyddyn ( £21,000 pro rata 0.7 FTE/3.5dpw)
<b>Math o Swydd</b>	Swydd barhaol, rhan amser, 3.5 diwrnod yr wythnos (gyda'r dewis i weithio'n hyblyg).
<b>Dechrau</b>	Haf 2022
<b>Lleoliad</b>	Yn y swyddfa yng Nghaerdydd gan weithio'n hyblyg a gyda'r cyfle i weithio o bell.
<b>I Ymgeisio</b>	<p>A fydddech chi cystal ag uwch lwytho llythyr eglurhaol yn amlinellu sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf a'ch CV i'r ddolen hon:  <a href="https://www.surveymonkey.com/r/LMNWalesSPM">https://www.surveymonkey.com/r/LMNWalesSPM</a>  erbyn <b>5.00 pm dydd Gwener 10 Mehefin 2022.</b></p> <p>A fydddech chi cystal â chynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr sydd mewn sefyllfa i sôn amdanoch yn broffesiynol. Dylai gyfeirio'n fyr at ba mor hir ac ym mha swydd y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn y cyfweiliad).</p> <p>Os hoffech chi gyflwyno eich cais mewn dull arall, byddwn yn hapus iawn i dderbyn hyn. Gallwch gysylltu â'r swyddfa ar 020 7759 1803 neu anfon e-bost at <a href="mailto:emily.roberts@livemusicnow.org.uk">emily.roberts@livemusicnow.org.uk</a> er mwyn trafod dulliau eraill addas. Mae'r pecyn hwn hefyd ar gael yn y Gymraeg.</p>
<b>Rhybudd o restr fer</b>	Wythnos yn dechrau ar 13 Mehefin 2022
<b>Cyfweiliadau</b>	Yn bersonol yn ystod yr wythnos yn dechrau 29 Mehefin 2022, fyddai orau ond gellir addasu os bydd angen.
<b>Hysbysu</b>	Mae'n ddrwg gennym na allwn ddarparu adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer. Byddwn yn eich hysbysu i roi gwybod i chi a ydych ar y rhestr fer ai peidio.
	<p>Mae Live Music Now wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac, o'r herwydd, rydyn ni'n annog yn weithredol geisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad ni. Hefyd croesawn y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu neu sydd wedi profi hiliaeth.</p> <p>Mae LMN yn gyflogwr hyblyg a chymwynasgar; cefnogir yn llwyr gweithio hyblyg gan gynnwys gweithio o bell/ o gartref.</p>

## Live Music Now

Elusen yw Live Music Now sy'n gweithio ac yn ymgyrchu i greu effaith cymdeithasol, mesuradwy, cynhwysol drwy gerddoriaeth. Mae ein cerddorion proffesiynol yn gweithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia) plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu, teuluoedd sy'n byw drwy heriau a gofalwyr a gweithwyr allweddol. Drwy gysylltu â phobl drwy gerddoriaeth a gwerthuso ei heffaith, rydyn ni'n datblygu arfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli a rhai bregus yn ein cymdeithas. Gwelir bod tystiolaeth bod ein gwaith yn gwella iechyd a llesiant ac yn creu sgiliau, hyder ac ymgysylltiad.

Mae Live Music Now yn cyrraedd dros 85,000 o bobl y flwyddyn ac yn hyfforddi a chyflogi 250 o gerddorion proffesiynol. Gallwch weld ein cerddorion mewn cartrefi gofal, ysbytai, lleoliadau cymunedol, ysgolion, llyfrgelloedd a hosbisau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban gyda ein sefydliad cyfatebol Live Music Now Yr Alban. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan [our website](#)

Mae ein rhaglen Iechyd a Llesiant yn cynnwys, ond nid wedi'i gyfyngu, i weithio gyda phobl hŷn sy'n byw mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion ynghyd a'r timau staff gofal, y lleoliadau gofal a'r sector ei hun. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda phobl hŷn sy'n byw'n annibynnol yn y gymuned a phobl mewn ysbytai, mewn cyd-destunau cyhoeddus a chlinigol.

Mae LMN wedi bod yn gweithio yng Nghymru ers 1990, gan gyflenwi dros 10,000 o berfformiadau ers hynny ac erbyn hyn yn cynnal, ar gyfartaledd, 650 sesiwn cerddorol yn flynyddol drwy weithio ym mhob un o'r 22 sir. Mae'r staff yn cynnwys y Cyfarwyddwr dros Gymru a Rheolwr Prosiect ac mae'r swyddfa wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd.

Mae'r swydd barhaol hon yn nodi cyfnod newydd cyffrous yn natblygiad y gangen fel rhan o gynllun busnes pum mlynedd newydd uchelgeisiol. Rydym yn chwilio am ymgeisydd ysbrydoledig gyda'r sgiliau, uchelgais a'r angerdd hanfodol i gefnogi ein twf.

### 1) Strwythur Trefniannol

Mae Live Music Now erbyn hyn yn gweithredu ar draws y DU. Gyda changhennau Saesneg ar draws y De Ddwyrain, De Orllewin a'r Gogledd a changhennau cenedlaethol ar draws Cymru a Gogledd Iwerddon gyda sefydliad tebyg yn yr Alban. Mae'r swydd hon yn Live Music Now Cymru a bydd yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr y Gangen ac aelodau allweddol tîm y DU.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith LMN ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Plant a Phobl Ifanc a Datblygiad Cerddorion sy'n cael eu cyflenwi drwy rwydwaith o ganghennau ar draws y DU. Mae Cyfarwyddwr yn rhedeg pob cangen sy'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn ateb yn ôl i'r Prif Weithredwr sydd yn ei dro yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr

### 1) Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

#### Rheoli Prosiect

- Rheoli llinell a chynhyrchu a mewnbynnu creadigol gan gynnwys rheoli artistig, ar lefel leol a chenedlaethol;
- Cynllunio a rheoli ystod o brosiectau cerddorol a phreswylfeydd fel y dyrannwyd gan Gyfarwyddwr y Gangen, yn brydlon ac o fewn cyllideb gan gynnwys datblygu briff y prosiect, amserlenni, cysylltu gyda cherddorion a lletywyr;
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr y Gangen a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol i ddatblygu cynnwys y prosiect ac i sicrhau bod gweithdrefnau monitro a gwerthuso priodol yn cael eu gweithredu;
- Cysylltu gyda cherddorion a phartneriaid ynglŷn â chofnodi gweithgareddau mewn lluniau, ffilm ac offer clyw mewn ymgynghoriad gyda cherddorion a phartneriaid a sicrhau eu bod yn cydsynio;
- Paratoi adroddiadau yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd mewnol ac allanol;

- Cynrychioli'r gangen mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid y prosiect.
- Ymweld â safle'n achlysurol i arsylwi ar weithgarwch y prosiect.

### Codi Arian a Datblygu Partneriaeth

- Ymchwilio i gyfleoedd ariannu a llunio ceisiadau mewn partneriaeth gyda Chyfarwyddwyr strategol a rhanbarthol o fewn set codi arian a ddiffiniwyd ymlaen llaw;
- Gweithio gyda chyfarwyddwr i ganfod a datblygu partneriaethau strategol mawr ar gyfer prosiectau penodol a datblygu;
- Defnyddio eich sgiliau cyfathrebu a'ch gallu i rwydweithio i ddatblygu perthnasoedd ar lefel uchel gydag arianwyr a chreu incwm i helpu i gyflwyno blaenoriaethau i'r sefydliad.

### Gweinyddu

- Sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir yn y gronfa ddata (Blackbaud's Raiser's Edge) a llunio cytundebau a threfnlenni ar gyfer cerddorion a lleoliadau;
- Gwneud trosolwg o ddata gwerthuso lleol a chydlynu a monitro data rhaglen genedlaethol a strategol;
- Gweithio gyda'r tîm gyda rhyw gymaint o reolaeth llinell i gymell adborth/gwerthusiad oddi wrth leoliadau, cyfranogwyr a cherddorion a'u gosod mewn cronfa ddata/meddalwedd arolwg yn ôl y galw;
- Sicrhau manylion cyswllt ar gyfer cerddorion, grŵp cyngori a lleoliadau diweddaraf yn y gronfa ddata;
- Rheoli offer sy'n cael eu benthyg i gerddorion: iPads, allweddellau, offerynnau taro;
- Trosolwg ar ran y rheolwyr llinell o systemau swyddfa.

### Cyllid

- Datblygu a chadw trosolwg o gyllidebau cyflenwi eich prosiect eich hun, gyda chyfrifoldeb dros ganiatáu taliadau;
- Prosesu a chreu anfonebau gyda meddalwedd QuickBooks (darperir hyfforddiant);
- Gweithio gyda chyllidebau prosiectau cenedlaethol gan wneud trosolwg a monitro cyllidebau prosiectau ardal;
- Creu a chynnal cronfa ddata o bartneriaid, arianwyr posibl, rhanddeiliaid ac eraill.

### Marchnata a Chyfathrebu

- Gweithio'n strategol gyda thîm Comms canolog ar storïau lleol a rhanbarthol a chyflenwi cynnwys pan fydd angen;
- Gweithio gyda thîm Comms a Marchnata ar gyfer ymgyrchoedd cenedlaethol ac ysgrifennu cynnwys;
- Trefnu cyfleoedd lluniau a chyfryngau a chynrychioli LMN fel cyflwynydd mewn cynadleddau neu mewn achlysuron eraill.

### Rheoli Cerddorion

- Cefnogi Cyfarwyddwr y Gangen i gysylltu â cherddorion ac i ganfod eu datblygiad o fewn LMN;
- Trosolwg o hyfforddiant a gofal bugeiliol cerddorion;
- Rheoli digwyddiadau hyfforddi a rhaglen digwyddiadau.

### Rheoli Llinell

- Rheoli cerddorion llawrydd a staff eraill y prosiect;

### Tasgau Ychwanegol

- Dirprwyo achlysurol ar ran Cyfarwyddwr y Gangen mewn digwyddiadau allanol;
- Cynnal unrhyw ddyletswyddau arail yn unol â gofyn Cyfarwyddwr y Gangen ac sy'n berthnasol i'r swydd hon.

## **2) Telerau ac Amodau**

Mae cytundeb y swydd yn barhaol. Y cyflog fydd £30,000 FTE y flwyddyn, (£21,000 pa 0.7 FTE, 3.5 dpw) a bydd yn cael ei dalu'n fisol.

- a) Mae'r penodiad yn ddibynnol ar:
  - i) Rybudd terfyniad o bedair wythnos o'r ddwy ochr
  - ii) Gyfnod prawf o dri mis
  
- b) Mae'n bosibl y bydd angen Gwaith min nos neu benwythnos weithiau. Nid oes unrhyw dâl dros amser ond mae'n bosibl y gellir trefnu amser rhydd yn lle hyn.
  
- c) Bydd y deilydd swydd yn gweithio yn swyddfa Caerdydd gyda'r cyfle i weithio o bell. Darperir offer TG. Rhaid i'r deilydd swydd hefyd fod yn barod i deithio o gwmpas Cymru ac, weithiau, o fewn Prydain Fawr.
  
- d) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn i bob un o'r staff ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus. Bydd yn cael ei dalu drwy'r rhestr gyflog. Mae'r sefydliad yn cyfrannu 3% o'ch cyflog i'r cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

### 3) Cyfle Cyfartal

Mae Live Music Now yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Rydyn ni'n hyrwyddo'r hawliau sylfaenol canlynol i bawb sy'n gysylltiedig â ni:

- I gael eu trin â pharch ac urddas
- I gael eu trin yn deg bob amser

beth bynnag eu lliw, hil, oed, cenedl, rhyw, ail-aseiniad rhyw, statws priodasol, anabledd, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred ac wrth ystyried anghenion oriau hyblyg a phatrymau gwaith.

#### **Nodiadau**

Mae pob swydd yn ddibynnol ar newid o bryd i'w gilydd a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Canllaw yw'r disgrifiad swydd i'r gwaith y bydd yn rhaid i chi ei wneud ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â'r raddfa ar gyfer y swydd.

**Uwch Reolwr Prosiect, Cymru: Iechyd a Llesiant**  
**Manyleb Bersonol**

	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
<b>Profiad</b>		
Lleiafswm o ddwy flynedd o brofiad o fewn y sefydliadau celfyddydol, diwylliannol neu fudiad gwirfoddol neu gyfatebol.	x	
<b>Sgiliau/cymhwysedd</b>		
Sgiliau Rheoli Prosiect, gan gynnwys cynllunio, rheoli cyllideb, gweithredu a monitro nifer o brosiectau ar yr un pryd.	x	
Profiad o sgiliau trefniannol a'r gallu i reoli llwythi gwaith amrywiol a chyflym.	x	
Dangos gwybodaeth waith o'r amgylchfyd ariannu (statudol, ymddiriedolaethau a sefydliadau a/neu eraill) gan gynnwys y gallu i ddatblygu cynigion yn unol â blaenoriaethau'r ariannwr.	x	
Effeithlonrwydd wrth reoli systemau swyddfa gan ofalu am fanylion.	x	
Llythrennog iawn ar draws ystod o becynnau ICT (set MS Office, a chronfeydd data – ar hyn o bryd, rydyn ni'n defnyddio Blackbaud Raiser's Edge) gan gynnwys bod yn gyfarwydd ag offer gweithio o bell, gan gynnwys Dropbox a Zoom.	x	
Sgiliau trefniannol a rheoli amser rhagorol ynghyd ag agwedd da wrth ddefnyddio'r ffôn.	x	
Sgiliau datrys problemau da.	x	
Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ysgrifenedig a llafar gyda pharodrwydd i gysylltu ag ystod amrywiol o bartneriaid.	x	
Gallu i gynrychioli'r sefydliad, cyfathrebu'n hyderus ac i ddirprwyo ar ran Cyfarwyddwr y Gangen yn ei absenoldeb.	x	
Gallu i gynrychioli'r sefydliad, cyfathrebu'n hyderus a dirprwyo ar ran Cyfarwyddwr y Gangen yn ei absenoldeb.		x
<b>Cyllid</b>		
Hyder wrth reoli a diweddarau cyllidebau.	x	
Yn gyfarwydd â defnyddio QuickBooks neu system gyllid debyg.		x
<b>Gwybodaeth ac ymdriniaeth</b>		
Ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal.	x	
Angerdd dros a deall cerddoriaeth fel dull i effeithio'n gymdeithasol.	x	
Deall ac ymrwymiad i ddiogelu.	x	
Ymwbyddiaeth o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.		x
<b>Aral</b>		
Egniol, creadigol, mentrus ac ymroddedig.	x	
Hynod ysgogol gyda mentergarwch, gallu i drefnu blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio'n unigol tra'n gweithredu fel rhan o dîm ehangach o dan gyfarwyddyd.	x	
Gallu i weithio fel rhan o dîm a datblygu perthnasoedd effeithlon o bell.	x	
Trwydded yrru lôn ac yn berchennog car.		x
Siarad Cymraeg.		x